OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 287 (Cy. 36)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

# Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2014

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio testun Cymraeg a Saesneg Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/683) o ganlyniad i gyflwyno credyd cynhwysol gan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012.

Caiff rheoliad 8 ei ddiwygio er mwyn caniatáu ystyried y ffaith bod credyd cynhwysol yn cael ei dderbyn wrth benderfynu a ganiateir hepgor ffi tribiwnlys.

Caiff rhai mân ddiwygiadau eu gwneud hefyd i destun Cymraeg y Rheoliadau er mwy alinio'r testunau Cymraeg a Saesneg.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 287 (Cy. 36)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Chwefror 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *13 Chwefror 2014* |
| *Yn dod i rym* | *10 Mawrth 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 1 a 9 o Atodlen 12 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2014, a deuant i rym ar 10 Mawrth 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004**

**2.**—(1) Mae testun Saesneg Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004(**2**) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 8(1) (waiver and reduction of fees)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (e) dileer “or”;

(**1**) 2002 p. 15. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 12 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 (O.S. 2013/1036), Atodlen 1, paragraff 148.
(**2**) O.S. 2004/683 (Cy. 71).

(b) dileer yr atalnod llawn ar ddiwedd is-baragraff (f); ac

(c) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

"; or

(g) universal credit."

(3) Mae testun Cymraeg Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraff (4).

(4) Yn rheoliad 8(1) (hepgor a lleihau ffioedd)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (ch) dileer "neu";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (d)(ii) rhodder hanner colon yn lle'r atalnod llawn; ac

(c) ar ôl is-baragraff (d)(ii) mewnosoder—

"(dd) lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm sy'n daladwy o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007; neu

(e) credyd cynhwysol."

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

11 Chwefror 2014